



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CALON

TÂN

HYDREF
2024

SEREMONI RADDIO

TUDALEN 10



GWOBRAU MWY NA DIM OND TANAU 2024

TUDALEN 4

MWY NA DIM OND TANAU
MORE THAN JUST FIRES
GWOBRAU 2024 AWARDS

MWY NA DIM OND
MORE THAN JUST F
GWOBRAU 2024 AWARDS



YMWELIADAU YR AWDURDOD TAN

TUDALEN 12

#DWINNABODRHYWUN - YDYCH CHI?

TUDALEN 18

ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN

TUDALEN 3

CYNNWYS

ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN	3
GWOBRAU MWY NA DIM OND TANAU	4
SEREMONI RADDIO	10
AWDURDOD TÂN	12
CYFATHREBU'R RHANBARTHU	14
MACHYNLLETH HALLOWEEN	17
#DWINNABODRHYWUN - YDYCH CHI?	18
DIOGELWCH YR HYDREF	20
CHWARAEON A CHYMDEITHASU	22
SWYDDI	24

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwdd yn brysur y mis diwethaf:



ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN

YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF, MAE GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU WEDI CODI SWM ANHYGOEL O £166,297 AR GYFER ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN!

Codwyd yr arian hwn o ganlyniad i ymdrechion anhygoel staff gweithredol a chymorth y Gwasanaeth, sydd wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a heriau, golchfeydd ceir a Diwrnodau Agored codi arian.

Mae [Elusen y Diffoddwyr Tân](#) yn cynnig cymorth gydol oes i les meddyliol, corfforol a chymdeithasol Diffoddwyr Tân sy'n gwasanaethu ac wedi ymddeol, eu teuluoedd a phersonél eraill y Gwasanaethau Tân ac Achub. Fe'i sefydlwyd ym 1943, ac mae'r Elusen yn cael ei hariannu drwy roddion a digwyddiadau codi arian Gwasanaethau Tân ac Achub y DU, ac mae'n adnodd hanfodol i'r rhai sy'n cysegru eu bywydau i ddiogelu eraill.

Dyma ein Prif Swyddog Tân, Roger Thomas KFSM, gyda'n tystysgrif Elusen y Diffoddwyr Tân sy'n cydnabod cefnogaeth y Gwasanaeth.

Diolch o galon!





MWY NA DIM OND TANAU
MORE THAN JUST FIRES

GWOBRAU MWY NA DIM OND TANAU 2024

Ddydd Iau, 26 Medi, Cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTCGC) ei Seremoni Wobrwyo flynyddol, Mwy na Dim ond Tân, yng Ngwesty'r Village yn Abertawe.

Cafodd y noson ei chyflwyno gan y darlledwr poblogaidd Eleri Sion sy'n fwyaf adnabyddus am ei chynhesrwydd a'i hegri ar BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru ac S4C.

Roedd y noson yn gyfle arbennig i ddiolch a chydabod ymdrechion rhyfeddol, gwaith caled ac ymroddiad staff y Gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf.

Roedd y seremoni'n cyflwyno cyfanswm o 10 categori o wobrau a oedd yn cynnwys enwebeion a ddewiswyd gan eu cydweithwyr. Roedd yn cynnwys gwobr am Gyfraniad Eithriadol, Codwr Arian y Flwyddyn a Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig y Prif Swyddog Tân ymysg nifer o wobrau eraill.

Yn ystod y seremoni, dywedodd y PST Thomas:

"Dathlu a chydabod yw pwrpas heno — cyfle i gydnabod ymroddiad, dewrder, a gwasanaeth anhygoel ein timau a'n hunigolion sy'n mynd y filltir ychwanegol i amddiffyn ein cymunedau.

Boed yn ddiffodd tanau gwylt neu achub, neu'n fentrau diogelwch cymunedol, mae gwaith ein Gwasanaeth yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ymladd tanau ac rydym yma i anrhydeddu'r genhadaeth ehangach honno heno."

DYMA ENILLWYR Y NOSON:



Gwobr Cyfraniad Eithriadol

Enillydd y wobwr gyntaf am Gyfraniad Eithriadol oedd y Rheolwr Grŵp am ei waith anhygoel gyda'r tîm [UK International Search and Rescue](#) ac am fynd y tu hwnt i'r disgwyliadau yn gyson i sicrhau bod gweledigaeth ac ymddygiad y Gwasanaeth bob amser yn cael eu bodloni.

Hefyd ar y rhestr fer roedd y Rheolwr Gwylfa wedi ymddeol Steve Amor o Orsaf Dân Llanwrtyd a'r Rheolwr Gwylfa John Herman o Adran Storfeydd y Gwasanaeth.



Gwobr Tîm y Flwyddyn

Roedd Gwobr Tîm y Flwyddyn yn cydnabod grŵp neu dîm sydd wedi dangos cydweithio rhyfeddol, proffesiynoldeb ac ymroddiad diwyro i gyflawni nodau a rennir. Cafodd y wobwr ei chyflwyno i'r Adran Fflyd, Peirianeg a Logisteg. Derbyniodd yr Adran Fflyd, Peirianeg a Logisteg y wobwr am eu cyfraniadau cyffredinol i'r Gwasanaeth yn ogystal â'u tîm ar-awlad sydd bob amser wrth law i sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth 24/7.

Hefyd ar y rhestr fer roedd Tîm Cyllid y Gwasanaeth.



Gwobr Arwr Tawel

Cyflwynwyd y Wobr Arwr Tawel i'r Rheolwr Gwylfa wedi ymddeol David Price o Orsaf Dân Y Drenewydd am ei yrfa hir a nodedig yn y Gwasanaeth, ac i gydnabod ei ymroddiad a'i waith parhaus yn ei gymuned.

Hefyd ar y rhestr fer roedd Dawn Newall o Orsaf Dân Llanelli a'r Rheolwr Criw Iwan Ward o Orsaf Dân Crymch.



Gwobr Cymuned a Phartneriaeth

Pedwaredd wobwr y noson oedd y Wobr Cymuned a Phartneriaeth a gyflwynwyd i'r Swyddog Addysg Ysgol Elinor Goldsmith am ei chyfraniadau parhaus i'r Gwasanaeth am dros 26 mlynedd, o ymweliadau ysgol i wiriadau diogelwch yn y cartref ynghyd ag amryw waith arall.

Hefyd ar y rhestr fer roedd Tîm Ieuenctid y Gwasanaeth a'r Tîm Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus Cymunedol.



Gwobr Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn

Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn oedd pumed categori'r noson ac fe'i dyfarnwyd i'r Diffoddwr Tân (Rheoli) Chance Morgan o'r adran Rheoli Tân ar y Cyd am ei gyflawniad yn Jiu Jitsu wedi iddo ennill y fedal aur ym Mhencampwriaethau Agored Prydain eleni ac am ei ymroddiad parhaus i'w rôl.

Hefyd ar y rhestr fer roedd Tîm Ffitrwydd y Gwasanaeth a'r Diffoddwr Tân Tanja Fulcher o Orsaf Dân Llandeilo.



Gwobr Codwr Arian y Flwyddyn

Cyflwynwyd Gwobr Codwr Arian y Flwyddyn i Orsaf Dân Aberhonddu am eu hymdrechion codi arian parhaus ar gyfer elusennau amrywiol a'u cyfranogiad yn eu cymuned leol.

Enwebwyd hefyd y Rheolwr Gwylfa Nathan Bringloe a'r Rheolwr Gorsaf, Richard Davies ynghyd â'r Diffoddwr Tân David Farrow o Orsaf Dân Aberdaugleddau.



Gwobr Gorsaf y Flwyddyn: Rhanbarth y Gorllewin

Cyflwynwyd Gwobr Gorsaf y Flwyddyn: Rhanbarth y Gorllewin i Orsaf Dân Llanymddyfri. Mae Llanymddyfri yn orsaf ragweithiol iawn sydd bob amser wrth wraidd unrhyw ddigwyddiadau cymunedol ac yn cynnal cysylltiadau busnes lleol cryf, ynghyd ag ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth a chydaddoldeb.

Y gorsafodded eraill ar y rhestr fer oedd Gorsaf Dân Arberth a Gorsaf Dân Rhydaman.



Gwobr Gorsaf y Flwyddyn: Rhanbarth y Gogledd

Cyflwynwyd Gwobr Gorsaf y Flwyddyn: Rhanbarth y Gogledd i Orsaf Dân y Trallwng i gydnabod eu hymrwymiad cymunedol dwfn, yn enwedig eu hymrwymiad a'u hymroddiad i'w Gwasanaeth Carolau Nadolig blynyddol, sy'n codi hwyl ac yn annog pobl leol i gymryd rhan wrth arddangos brwdfrydedd a hygyrchedd y criw.

Hefyd ar y rhestr fer roedd Gorsaf Dân Llanidloes a Gorsaf Dân Llanfyllin.



Gwobr Gorsaf y Flwyddyn: Rhanbarth y De

Enillydd Gorsaf y Flwyddyn: Rhanbarth y De oedd Gorsaf Dân Glyn-nedd am ei safonau ymateb uchel ac ymgysylltiad cymunedol, gan oresgyn heriau trwy recriwtio arloesol a phresenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol, ochr yn ochr â chyfrannu at brosiect gardd gyda Cadwch Gymru'n Daclus.

Hefyd ar y rhestr fer roedd Gorsaf Dân Seven Sisters a Gorsaf Dân Port Talbot.

Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig y Prif Swyddog Tân

Categori olaf y noson oedd Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig y Prif Swyddog Tân

Yn dilyn trafodaeth ymhlith y Panel Rhestr Fer, daeth yn amlwg ei bod yn amhosibl dewis dim ond un enillydd ar gyfer Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig y PST, ac ar ôl clywed am ddewrder, ymroddiad ac ymrwymiad eithriadol pob enwebai, penderfynwyd eu bod i gyd yn enillwyr teilwng:



Yr Antarctic Fire Angels, Rebecca Openshaw-Rowe a Georgina Gilbert

Cwblhaodd Rebecca a Georgina, a adnabyddir fel yr Antarctic Fire Angels, y daith gyntaf y byd o arfordir Antarctica i Begwn y De, sydd dros 1,200 km mewn dim ond 52 diwrnod. Gan wynebu tymheredd mor isel â -30°C a gwyntoedd hyd at 60 mya, fe wnaethant ymgymryd â'r her hon heb arweiniad a heb gymorth, gan dynnu slediau 100kg. Roedd eu taith nid yn unig yn herio stereoteipiau rhywedd ond hefyd yn codi arian hanfodol ar gyfer [Elusen y Diffoddwyr Tân](#).



Yr Osgordd Baneri Seremonïol

Mae'r Osgordd Baneri Seremonïol yn cynnwys grŵp o bersonél presennol ac wedi ymddeol sy'n cynrychioli'r Gwasanaeth mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn galendr. Ers ei sefydlu ym 1984, mae'r Osgordd Baneri Seremonïol wedi dangos ymroddiad diwyro, gan fynychu achlysuron allweddol o angladdau i



Gwylfa Wen, Canol Abertawe a Gorllewin Abertawe

Mae'r ddwy Wylfa Wen, o Ganol Abertawe a Gorllewin Abertawe, yn cael eu cydnabod am eu hymateb i ddigwyddiad difrifol, yn gynharach eleni. Gan wynebu tân difrifol mewn eiddo ac ataliad sydyn ar y galon mewn gardd gyfagos, llwyddodd y criwiau hyn i reoli'r ddau argyfwng yn fedrus ar yr un pryd. Cafodd eu gweithredoedd cyflym, pendant eu cymeradwyo gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru, ac ers hynny mae'r claf wedi gwella'n llawn, diolch i'w gweithredoedd.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i enwebu'r rhai a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer pob gwobr, diolch yn fawr hefyd i [Total Sound Solutions](#) am eu cymorth gyda'r adnoddau clyweled ar y noson, [Martin Ellard](#) am ei help gyda ffotograffiaeth a gwesty'r [Village](#) am eu cefnogaeth hanfodol ar gyfer cynnal noson bleserus iawn.



DIFFODDWYR TÂN AMSER CYFLAWN DIWEDDARAF GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Ddydd Iau, Gorffennaf 25ain, cynhaliwyd Seremoni Raddio a Gorymdaith i nodi Cwblhau'r Cwrs Hyfforddi gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ar gyfer y garfan ddiweddaraf o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn.

Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hyfforddi Iarll y Coed y Gwasanaeth, yn gyfle i ddathlu ac i fyfyrio ar lwyddiannau anhygoel y 12 unigolyn - sy'n cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel Carfan 02/24 - sydd wedi cwblhau eu cwrs hyfforddi

Diffoddwr Tân Amser Cyflawn 14 wythnos o hyd yn ddiweddar, a hynny yng nghwmni eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Yn dilyn proses recriwtio helaeth lle cyflawnwyd amrywiaeth o heriau fel rhan o broses ddethol drylwyr, dechreuodd Carfan 02/24 ar eu cwrs preswyl 14 wythnos ar Ebrill 17eg. Ers hynny, mae pob un ohonynt wedi datblygu'r sgiliau a'r galluoedd cychwynnol sydd eu hangen i gyflawni eu rolau newydd fel Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn.

Roedd y Seremoni'n cynnwys Gorymdaith y Recriwtiaid, pan ymunodd [Gosgordd Faneri Seremonïol y Gwasanaeth](#) â nhw, ac Archwiliad o'r Recriwtiaid gan y Prif Swyddog Tân Roger Thomas, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Cynghorydd Gwynfor Thomas a'r Rheolwr Gwylfa ac Hyfforddwr, Phil O'Shea. Yna cynhaliwyd nifer o Arddangosfeydd Iard Ymarfer i ddangos y sgiliau ymateb brys y mae pob aelod o'r Garfan wedi'u datblygu yn ystod eu hyfforddiant, ac yn dilyn hynny cyflwynwyd y Tystysgrifau a'r Gwobrau.



AWDURDOD TÂN

MISOEDD YR HAF Gyda'n Hawdurdod Tân

Mae ein Hawdurdod Tân yn cynnwys 25 o aelodau a benodwyd gan yr Awdurdodau Cyfansoddol o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

Mae Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân, y Cynghorydd Gwynfor Thomas, ynghyd â holl aelodau presennol yr Awdurdod Tân yn gwneud pob penderfyniad mawr yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod, neu yng nghyfarfodydd un o bwyllgorau'r Awdurdod ar gyfer y Gwasanaeth.

Dros fisoedd yr haf, bu nifer o aelodau ein Hawdurdod Tân yn ymweld â digwyddiadau yr oedd staff ein Gwasanaeth yn eu cefnogi.

Dyma grynodeb o'r hyn y bu rhai ohonynt yn ei wneud:



Awdurdod Tan ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Authority



Bu'r Cynghorydd Andrew Williams a'r Cynghorydd Lyndon Jones yn Sioe Awyr Cymru yn Abertawe.

Bu'r Cynghorydd Lyndon Jones MBE, o Gyngor Dinas Abertawe, mewn sawl digwyddiad megis Her Ffitrwydd Diffoddwyr Tân Cymru, Sioe Sir Gŵyr, a Digwyddiad Gwasanaethau Cyhoeddus i Drigolion a gynhaliwyd yn Neuadd Brangwyn, Abertawe.



Daeth Cadeirydd yr Awdurdod Tân, y Cynghorydd Gwynfor Thomas, draw i'r Eisteddfod yr Urdd ym Meifod.



STAFF GTACGC YN CWBLHAU HER TRI CHOPA CYMRU!

Ddydd Sadwrn, 7 Medi, cymerodd 14 aelod o staff GTACGC ran yn Her Tri Chopa Cymru, gan gyrraedd copaon Pen y Fan, yr Wyddfa a Chader Idris o fewn 24 awr.

Gyda chymysgedd o staff gweithredol a staff eraill, roedd yr her yn golygu cerdded am bellter o 17



milltir ac esgyniad o 2,334 metr, i gyd er mwyn codi arian hanfodol ac ymwybyddiaeth ar gyfer [Elusen y Diffoddwyr Tân](#) a [Swyn y Gwynt - Elusennau Iechyd Hywel Dda](#).

Fe wnaeth y diffoddwr tân Josh Herman wthio'r her gam ymhellach drwy wisgo cit diffodd tân llawn ac offer anadlu ar ei gefn am y daith gyfan!

ERTHYGL LLAWN



YMARFER HYFFORDDI AMLASIANTAETHOL YM MAES AWYR CANOLBARTH CYMRU YN Y TRALLWNG

Dydd Mawrth, 30 Gorffennaf, cynhaliwyd ymarfer hyfforddi ar raddfa fawr ym Maes Awyr Canolbarth Cymru yn y Trallwng, wedi'i drefnu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).

Roedd yr ymarfer hyfforddi, sef 'Edrych tua'r Awyr' neu 'Look to the Sky', yn cwmpasu ymateb amlasiantaethol gan gynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, staff y maes awyr a nifer o griwiau GTACGC.

Roedd yr ymarfer yn gyfle i efelychu senario brys realistig a oedd yn cynnwys gwrthdrawiad rhwng dwy awyren mewn sioe awyr, a'r rheini'n cwmpo i'r llawr wedyn yn y man parcio a'r man i wylwyr. Roedd yr efelychiad o'r argyfwng yn cynnwys defnyddio sawl cerbyd ymateb brys a phersonél, sefydlu canolfannau rheoli a chynnal ymgyrchoedd chwilio ac achub.

ERTHYGL LLAWN



CYFATHREBU'R RHANBARTHAU



YMARFERIAD NEMO


Ddydd Mawrth, Medi 17, cynhaliwyd Ymarferiad Nemo yn ardal rhaedrau Pontneddfechan yng Nglyn-nedd.

Cafodd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsafoedd Tân Glyn-nedd, Gorseinon, Pontarddulais, a Chanol Abertawe yn rhan o'r ymarferiad a oedd yn efelychu digwyddiad person coll.

Y dasg oedd achub pump o bobl nad oeddent wedi cael eu gweld ers iddynt fentro i'r dŵr. Roedd gofyn i'r criwiau gwblhau'r ymarferiad yn briodol. Bu'r holl griwiau'n cydweithio'n dda, gan gyfathrebu'n effeithiol trwy gydol y dasg er mwyn ei chwblhau'n llwyddiannus.

Mae ymarferion o'r fath yn sicrhau bod gan ein diffoddwyr tân wybodaeth a phrofiad i'w helpu i ymdrin â digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

Da iawn bawb a gymerodd ran!



Codi Arian i Elusen Charity Fundraiser

GOLCHI CEIR CAR WASH



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



GORSAF DÂN CRYMYCH FIRE STATION

i gefnogi | in support of



DYDD SADWRN | SATURDAY
HYDREF | 12 | OCTOBER
10:00 - 15:00

YDYCH CHI'N ADNABOD RHYWUN A FYDDAI'N ELWA O WIRIAD DIOGELWCH YN Y CARTREF AM DDIM?

Yn gynharach y flwyddyn hon, fe gyflwynodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ymgyrch newydd #DwinNabodRhywun yn Sioe Frenhinol Cymru. Mae'r ymgyrch yn annog teulu a ffrindiau i gadw golwg ar eu cymdogion a'u perthnasau, yn enwedig y rheini a allai fod yn agored i niwed, yn oedrannus neu'n byw ar eu pennau eu hunain.

Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar gymunedau gwledig ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael ymweliad Diogelwch yn y Cartref. Mae'r ymweliadau hyn yn caniatáu i staff Diogelwch Cymunedol wirio ffactorau pwysig yn y cartref, megis cael larymau mwg sy'n gweithio, diogelwch trydanol, llwybrau dianc clir a mwy.

Mae ymweliadau Diogelwch yn y Cartref GTACGC yn cael eu cynnal gan swyddogion hyfforddedig, maent ar gael am ddim a gallent achub bywydau.

Mae'r ystadegau'n dangos bod

58%

o'r bobl oedd yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a gollodd eu bywydau mewn tanau tai yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn byw ar eu pennau eu hunain.

Yn ôl y Rheolwr Gorsaf Rob Tovey:

"Yn anffodus, rydyn ni'n aml yn ymateb i danau mewn eiddo y gellid bod wedi'u hosgoi, neu y gellid bod wedi lleihau eu heffaith, trwy fod â gwybodaeth sylfaenol ac offer fel larymau mwg sy'n gweithio. Gallwn gynnig gwiriad diogelwch yn y cartref gan ddarparu'r cyngor a'r offer diogelwch hyn am ddim.

Felly, os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n adnabod rhywun, siaradwch â nhw a chysylltwch â ni."

Y ffordd hawsaf o drefnu ymweliad Diogelwch yn y Cartref ar eich cyfer chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yw llenwi ein ffurflen archebu ar-lein: [Ymweliad Diogel ac Iach \(tancgc.gov.uk\)](https://www.tancgc.gov.uk) neu ffoniwch ni ar 0800 169 1234.

#DWINNABODRHYWUN - YDYCH CHI?



Ydych chi'n adnabod rhywun a fyddai'n elwa o Ymweliad Diogelwch yn y Cartref RHAD AC AM DDIM?

Rydyn ni'n gwirio larymau mwg, ffyrdd o ddianc, diogelwch trydanol a mwy, i gyd yn rhad ac am DDIM.

#DwinNabodRhywun

0800 169 1234
Neu sganiwch y cod QR:



DDIOGELWCH YR HYDREF

MAE GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN AWYDDUS I'CH HELPUS CHI I FOD YN DDIOGEL YR HYDREF HWN.

Y mis hwn rydym yn lansio ein hymgyrch Diogelwch yr Hydref. Wrth i'r dail ddechrau newid lliw a chwympo o goed, fe'n hatgoffir y bydd y nosweithiau'n dechrau tynnu i mewn yn gyflymach a bydd y tymheredd yn dechrau gostwng. Rydym ni am i chi a'ch teulu fwynhau tywydd ffres yr Hydref wrth osgoi rhai o'r risgiau posibl a ddaw i ganlyn y tymor.

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn mae'r rhan fwyaf o bobl yn dechrau treulio mwy o amser yn eu cartrefi, gan gadw'n gynnes trwy ddefnyddio tanau agored, llosgyddion coed a gwresogyddion ond mae peryglon i bob un.

Cofiwch drefnu eich gwasanaeth blyneddol ar eich system gwres canolog ac os oes gennych dân agored neu stôf losgi coed yn eich cartref, mae'n bwysig cynnal fflwiau a simneiau yn iawn. Gall cadw eich larymau mwg a charbon monocsid mewn cyflwr da helpu i'ch amddiffyn chi a'ch teulu rhag tân. Cofiwch gymryd golwg ar larymau mwg a charbon monocsid yn rheolaidd trwy wasgu'r botwm

prawf nes bod y larwm yn gwneud sŵn. Os ydych chi'n defnyddio gwresogyddion cludadwy, mae'n hanfodol eich bod chi'n darllen y cyfarwyddiadau ymlaen llaw a'u cadw'n ddigon pell oddi wrth eich llenni a'ch dodrefn. Os ydych chi'n mynd i ddefnyddio kannwyll neu losgydd olew, gwnewch yn siŵr nad ydych chi byth yn ei adael yn llosgi os ydych chi'n mynd allan neu'n mynd i gysgu a chadwch eich canhwylau yn ddigon pell oddi wrth anifeiliaid anwes a phlant.

Dyweddodd Peter Greenslade, Pennaeth Corfforaethol Risg Gymunedol:

"Rydym eisiau i'n cymuned ystyried ein cyngor diogelwch ar gyfer y misoedd nesaf. Mae newid yn y tymhorau'n golygu ein bod yn debygol o wneud pethau ychydig yn wahanol yn ein cartrefi ac mae hynny'n newid lefel y risg i bobl ac eiddo. Rydym am sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu i dynnu sylw at y peryglon allech chi eu hwynebu a sut y gallwch leihau'r risgiau hynny trwy gymryd rhai camau syml."



Rydym yn eich annog i ofyn am ymweliad Diogel ac lach am ddim i chi'ch hun neu'ch anwyliad yr Hydref hwn.

Gallwch roi galwad inni nawr i archebu ymweliad Diogel ac lach am ddim ar 0800 169 1234 neu llenwch ein ffurflen ar-lein [yma](#).

Am fwy o wybodaeth, cyngor neu arweiniad ewch i'n gwefan.

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar ein sianeli Cyfryngau Cymdeithasol am ragor o negeseuon diogelwch.
X - @mawwfire
Facebook - @mawwfire
Instagram -mawwfire_rescue

CHWARAEON A CHYMDEITHASU

DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:



ROWNDERI
ROUNDERS



CLWB CRICED
CRICKET CLUB



CLWB BOWLIO
BOWLS CLUB



CLWB BEICIO
CYCLING CLUB



CLWB PYSGOTA PLY
FLY FISHING CLUB



CLWB PÊL DROED
FOOTBALL CLUB



CLWB GOLFF
GOLF CLUB



FFOCWS
CHWARAEON
MENYWOD
FEMALE
SPORTS FOCUS



CLWB RYGBI
RUGBY CLUB



CLWB TRIATHLON
TRIATHLON CLUB



CLWB FFITRWYDD
FITNESS CLUB

Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau.

Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk



NODWETH CHWARAEON A CHYMDEITHASU

RHOI SYLW I SEICLO!

Fel rhan o'n sylw i bob un o glybiau Chwaraeon a Chymdeithasol GTACGC, yn rhifyn hwn o Calon Tân rydym yn canolbwyntio at yr Adran Feicio!

Mae Adran Feicio GTACGC bob amser yn chwilio am aelodau newydd. Mae'r clwb ar agor i holl weithwyr y Gwasanaeth gan gynnwys gwirfoddolwyr, gweithwyr llawn amser, gweithwyr Ar Alwad, staff cymorth ac aelodau sydd wedi ymddeol. Mae croeso i bawb ymuno neu helpu mewn unrhyw ffordd, boed yn newydd i feicio neu'n beicio'n rheolaidd.

Os hoffech fwy o wybodaeth neu os oes diddordeb gennych mewn ymuno â'r Adran Feicio, cysylltwch â Sean Lloyd - s.lloyd@mawwfire.gov.uk



CLWB BEICIO
CYCLING CLUB



GWEITHIO GYDA NI!

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL >

BUDDION

- Cyfraddau cyflog cystadleuol
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Gwyliau Blynyddol hael - 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllyn Hyblyg
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

A LLAWER MWY!



GWNEWCH WAHANIAETH!

**Recriwtio Diffoddwyr
Tân Ar Alwad!**



**Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud
i'ch Gorsaf Dân leol?**

**Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer
diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i
ddarganfod mwy!**



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i
gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

OUR VISION

To deliver the best possible service for
the communities of Mid and West Wales.



#EichGTACGC

#YourMAWWFRS

#MwyNaDimOndTanau #MoreThanJustFires



www.tancgc.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - HYDREF 2024